



Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 12.63 – Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.
2. Mae'r adroddiad yn argymhell diwygiadau i Reol Sefydlog 12.63 i newid y nifer o weithiau y gall Aelod gyflwyno ei enw i'r balot ar gyfer sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad i Weinidogion o ddwywaith i unwaith. Mae'r newid a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes i'w weld yn Atodiad A.

Cefndir

3. Yn eu cyfarfod ar 2 Ebrill 2019, cytunodd y Rheolwyr Busnes i dreialu gostyngiad yn nifer Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynir i ymddangos ar agenda'r Cyfarfod Llawn o 15 i 12, gan barhau am y tro â'r trefniadau pleidleisio cyffredol – lle dewisir 20 Aelod i gyflwyno cwestiynau i ddechrau.

Nid oedd y gostyngiad hwn yn gofyn am newidiadau i Reolau Sefydlog, ond cytunodd y Rheolwyr Busnes ysywaeth i adolygu ei lwyddiant ar ôl toriad yr haf.

4. Prif nod lleihau nifer y cwestiynau a gyflwynir oedd lleihau nifer y cwestiynau a 'wastreffer' wrth iddynt beidio cael eu cyrraedd yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r llywodraeth yn rhoi ateb ysgrifenedig i unrhyw gwestiynau nas cyrhaeddir. Mae hyn yn golygu, gan iddynt gael eu hateb, na all Aelodau gyflwyno'r cwestiynau hyn eto o fewn cyfnod o dri mis.

5. Ar ôl gostyngiad o'r fath, nid oedd y Rheolwyr Busnes o'r farn ei bod yn rhesymol i Aelodau barhau i gael gofyn dau gwestiwn yr un, ac felly cytunwyd hefyd i leihau sawl gwaith y gall pob Aelod gyflwyno ei enw i'r balot ar gyfer cwestiynau i Weinidogion (gan gynnwys i'r Cwnsler Cyffredinol yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel 'Gweinidog Brexit') o ddau i un ar gyfer tymor yr haf. I wneud y newid hwn yn barhaol, byddai angen newid y Rheolau Sefydlog, ond cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnal treial dros dro gyda'r bwriad o ddiwygio'r Rheolau Sefydlog pe bai'n cael ei ystyried yn llwyddiant.

6. Mae'r trefniadau presennol sy'n nodi sawl gwaith y caiff Aelodau roi eu henw i'r balot i'w gweld yn y Rheolau Sefydlog a ganlyn:

- RhS 12.61: *Rhaid i'r Llywydd gynnal balot er mwyn dethol enwau'r Aelodau y caniateir iddynt gyflwyno cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, a'r Cwnsler Cyffredinol (os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau llafar am faterion sy'n ymwneud yn unig â chyfrifoldebau sydd ganddo ef neu hi ac eithrio cyfrifoldebau swyddog y gyfraith y llywodraeth).*
- RhS 12.63: *Ni chaiff Aelod gyflwyno ei enw i'r balot o dan Reol Sefydlog 12.61 fwy na dwywaith ar gyfer cwestiynau llafar i un o Weinidogion Cymru yn benodol neu'r Cwnsler Cyffredinol (os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau llafar am faterion sy'n ymwneud yn unig ag unrhyw gyfrifoldebau sydd ganddo ef neu hi ac*

eithrio cyfrifoldebau swyddog y gyfraith y llywodraeth), ac unwaith ar gyfer cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru.

Dadansoddiad o'r newidiadau

7. Ar 21 Mai 2019, nododd y Llywydd ei bwriad i sicrhau y cyrhaeddir cwestiwn 8 bob amser yn yr eitem Cwestiynau i'r Prif Weinidog. Ers hynny, mae bron pob sesiwn gwestiynau i Weinidogion a'r Prif Weinidog wedi cyrraedd cwestiwn 8 o leiaf. Am ddeg wythnos cyn i'r newid ddigwydd, nifer y cwestiynau a ofynnwyd ar gyfartaledd oedd 7.5 cwestiwn; cynyddodd hyn ryw faint i 8 cwestiwn am y cyfnod o ddeg wythnos ar ôl y newid.

8. Gyda thri chwestiwn yn llai yn ymddangos ar yr agenda, a chyda nifer debyg iawn o gwestiynau yn cael eu cyrraedd ar ôl y newid ag oedd yr achos gynt, gellir dweud bellach fod cyfartaledd o dri chwestiwn yn llai yn cael eu 'gwastraffu' ym mhob sesiwn. Ar yr un pryd, nid yw'n ymddangos bod y newid yn y terfyn uchaf o ran sawl gwaith y gall Aelod roi ei enw i'r balot wedi cael unrhyw effaith ar nifer y cwestiynau sy'n cael eu cyflwyno.

9. Cyrhaeddir pob cwestiwn i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, y Cwnsler Cyffredinol (mewn perthynas â'i gyfrifoldebau fel Swyddog y Gyfraith) a Chomisiwn y Cynulliad yn rheolaidd. Fodd bynnag, y Dirprwy Weinidog yw'r unig un o'r rhain sy'n destun balot, ac nid yw'r balot ar gyfer y Dirprwy Weinidog (8 cwestiwn drwy'r balot, 8 cwestiwn wedi'u cymysgu) wedi newid ers ei gyflwyno.

10. Ar 15 Hydref, penderfynodd y Pwyllgor Busnes i leihau nifer Cwestiynau Llafar y Cynulliad sy'n ymddangos ar agenda'r Cyfarfod Llawn yn barhaol o 15 i 12, a gwneud y diweddariad priodol i'r Canllawiau ar gynnal busnes y Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gynnig newid i Reol Sefydlog 12.63 i wneud y cyfyngiad ar Aelodau i gyflwyno un cwestiwn yn unig i'r balot yn un parhaol. Nid yw'r Pwyllgor yn cynnig lleihau nifer y cwestiynau y gall Aelod

eu cyflwyno i'w gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol pan fydd yn ateb cwestiynau yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog y Gyfraith.

Cam i'w gymryd

11. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y newid i Reol Sefydlog 12.63 ddydd Mawrth 5 Tachwedd 2019, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynnig fel y'i nodir yn Atodiad B, a nodi'r wybodaeth arall yn yr adroddiad hwn.

Atodiad A

RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn

Cwestiynau Llafar

12.61	Rhaid i'r Llywydd gynnal balot er mwyn dethol enwau'r Aelodau y caniateir iddynt gyflwyno cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, a'r Cwnsler Cyffredinol (os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau llafar am faterion sy'n ymwneud yn unig â chyfrifoldebau sydd ganddo ef neu hi ac eithrio cyfrifoldebau swyddog y gyfraith y llywodraeth).	Cadw'r Rheol Sefydlog
12.62	Rhaid cynnal balot o dan Reol Sefydlog 12.61 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y diwrnod olaf y caniateir cyflwyno cwestiynau.	Cadw'r Rheol Sefydlog
12.63	Ni chaiff <u>Dim ond unwaith y caiff</u> Aelod gyflwyno ei enw i'r balot o dan Reol Sefydlog 12.61 fwy na dwywaith ar gyfer cwestiynau llafar <u>i'r Prif Weinidog</u> , i un o Weinidogion Cymru yn benodol neu'r Cwnsler Cyffredinol (os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau llafar am faterion sy'n ymwneud yn unig ag	Diwygio'r Rheol Sefydlog Wedi'i ddiwygio i newid y nifer o weithiau y gall Aelod gyflwyno ei enw i'r balot ar gyfer sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad i

	unrhyw gyfrifoldebau sydd ganddo ef neu hi ac eithrio cyfrifoldebau swyddog y gyfraith y llywodraeth), ac unwaith ar gyfer cwestiynau llafar i Brif Weinidog Cymru.	Weinidogion o ddwywaith i unwaith.
12.63A	Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 12.63B, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cwestiynau llafar i'r Cwnsler Cyffredinol (oni bai ei fod ef neu hi yn ateb cwestiynau llafar am faterion sy'n ymwneud yn unig ag unrhyw gyfrifoldebau sydd ganddo ef neu hi ac eithrio cyfrifoldebau swyddog y gyfraith y llywodraeth, lle bydd Rheol Sefydlog 12.61 yn gymwys) a'r Comisiwn.	Cadw'r Rheol Sefydlog
12.63B	Ni chaiff Aelod gyflwyno mwy na dau gwestiwn llafar i'r Cwnsler Cyffredinol, ac un cwestiwn llafar i'r Comisiwn, ar gyfer unrhyw wythnos y byddant yn ateb cwestiynau.	Cadw'r Rheol Sefydlog

Atodiad B

12.63 Dim ond unwaith y caiff Aelod gyflwyno ei enw i'r balot o dan Reol Sefydlog 12.61 ar gyfer cwestiynau llafar i'r Prif Weinidog, i un o Weinidogion Cymru yn benodol neu'r Cwnsler Cyffredinol (os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau llafar am faterion sy'n ymwneud yn unig ag unrhyw gyfrifoldebau sydd ganddo ef neu hi ac eithrio cyfrifoldebau swyddog y gyfraith y llywodraeth).